

Rhagenwau

Rheol 1. Rydym yn defnyddio **ei** pan rydym yn cyfeirio at rywbeth unigol.

Rheol 2. Rydym yn defnyddio **eu** pan rydym yn cyfeirio at rywbeth lluosog.

OND ei gilydd

Rheol 3. Ar ôl llafariad mae **ei** > 'i ac mae **eu** > 'u

Mae **h** yn cael ei hychwanegu ar ddechrau gair sy'n dechrau â llafariad ar ôl:

- **ei** (benywaidd)
- **ein**


Ymarfer

Cywirwch y brawddegau isod trwy lenwi'r tabl.

e.e. Mae Rhys wedi rhedeg eu ras olaf am y tymor.


Brawddeg	Camgymeriad	Cywiriad	Rhif y rheol
Enghraifft	eu ras	ei ras	1. Rydym yn defnyddio ei gyda'r unigol

1. Mae'r neges hon yn bwysig ac mae angen i'r staff eu darllen yn syth.
2. Rydw i wedi cwblhau'r ymchwil a'r gwaith cynllunio ar gyfer y traethawd; bydd rhaid i mi ei hysgrifennu cyn bo hir.
3. Mae llawer yn anghytuno â'u syniadau hi ynghylch ailstrwythuro ond does neb yn fodlon dweud wrthi.
4. Bydd angen i'r gweithwyr ymuno ag undeb er mwyn iddyn nhw gael ei hamddiffyn.
5. Er mwyn datrys yr anghydfod, bu'n rhaid i'r ddau weithiwr siarad â'u gilydd.
6. Aeth nifer o ffrindiau'r fyfyrwraig i weld ei arddangosfa gelf.



7. Roedd Elis yn falch iawn o'u ddyrchafiad ac roedd e ar dân eisiau dweud wrth ei ffrindiau.
8. Mae'n flin iawn gennym ni, roedd ein ymddygiad yn y gyngerdd neithiwr yn blentynnaidd ac anaddas.
9. Roedd Miriam yn hapus i gael cynnig ystafell i'w rhentu gyda'i chariad yng Nghaerdydd, ond ni allai hi guddio eu hawydd i symud i Lundain.
10. Bydd yn rhaid i chi gwblhau'r ffurflenni cais yn ystod eich hawr ginio.

Brawddeg	Camgymeriad	Cywiriad	Rhif y rheol
Enghraifft	eu ras	ei ras	1. Rydym yn defnyddio ei gyda'r unigol
1.			
2.			
3.			
4.			
5.			
6.			
7.			
8.			
9.			
10.			

**Ateb:**

Brawddeg	Camgymeriad	Cywiriad	Rhif y rheol
1.	eu darllen	ei darllen	1. Rydym yn defnyddio ei gyda'r unigol.
2.	ei hysgrifennu	ei ys grifennu	3. Nid oes angen ychwanegu h ar ôl ei (gwrywaidd).
3.	â'u syniadau	â'i syniadau	1. Rydym yn defnyddio ei gyda'r unigol.
4.	ei hamddiffyn	eu hamddiffyn	1. Rydym yn defnyddio eu gyda'r lluosog.
5.	â'u gilydd	â'i gilydd	2. ei/i gilydd sy'n gywir bob tro.
6.	ei arddangosfa	ei hardd angosfa	3. Mae h yn cael ei hychwanegu ar ddechrau gair sy'n dechrau â llafariad ar ôl ei (benywaidd).
7.	o'u ddyrchafiad	o'i ddyrchafiad	1. Rydym yn defnyddio ei gyda'r unigol.
8.	ein ymddygiad	ein hym ddygiad	3. Mae h yn cael ei hychwanegu ar ddechrau gair sy'n dechrau â llafariad ar ôl ein .
9.	eu hawydd	ei hawydd	1. Rydym yn defnyddio ei gyda'r unigol.
10.	eich hawr	eich awr	3. Nid oes angen ychwanegu h ar ôl eich.